

CANLLAWIAU I GRWPIAU CYMUNEDOL A GWIRFODDOL Gwahodd, derbyn ac agor dyfynbrisiau

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer cynlluniau sydd a'u gwerth yn is nag £5000

1. Gwahodd Dyfynbrisiau

Nid oes angen dyfynbrisiau cystadleuol ar gyfer contractau gyda gwerth amcangyfrifedig o lai na £5,000. Dylid cael dyfynbris ar bapur gan y Cyflenwr. Bydd yn cynnwys manylion y gwasanaethau, cyflenwadau neu waith i'w darparu ac yn gosod pris a thelerau taliadau.

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer cynlluniau sydd a'u gwerth rhwng £5000 ac £50,000.

Ar gyfer cynlluniau drytach bydd angen dilyn Rheolau Sefydlog Parthed Contractau Cyngor Gwynedd. Cysylltwch â Uwch Swyddog Cist Gwynedd.

1. Cyn i'r gwaith gychwyn

- Paratoi amcangyfrif o bris y gwaith i sicrhau dyfynbris rhesymol. (Awgrym: Cydweithio gyda arbennigwr yn y maes i sicrhau fod y broses cyfalaf â'r rhaglenni gwaith yn gywir a chyflawn.
- Os yw'r grwp yn cyflogi rheolwr i'r cynllun bydd **rhaidd** dangos tri pris neu gyfiawnhad digonol dros y dewis.
- Dethol cwmnïau sydd yn dechnegol addas ar gyfer cyflawni'r gwaith.

2. Gwahodd dyfynbrisiau

- Anfon manylion llawn a chyson i'r holl gontractwyr (o leiaf 3) ar yr un dyddiad.
- Dogfennau ynghlwm â'r gwahoddiadau:

Briff gwaith	o'r	Cais am ddyfynbris	Dyddiad ac amser cau	Amlen * (dewisiol)	Tystysgrif atal twyllledd **
--------------	-----	--------------------	----------------------	--------------------	------------------------------

* Rhaid i amlenni dyfynbrisiau nodi eu bod yn cynnyws dyfynbris.

** Dogfen ar gael gan Uwch Swyddog Cist Gwynedd

3. Newid i'r dyfynbrisiau

- Os oes unrhyw newid yn y broses neu'r cynllun **RHAID** i'r holl gontractwyr gael eu hysbysu yn ysgrifennedig.

4. Derbyn dyfynbrisiau

- I'w derbyn yn yr amlenni penodol erbyn y **dyddiad** a'r **amser** penodedig.

5. Agor dyfynbrisiau

- Agor cyn gynted ag y bo modd wedi'r dyddiad ac amser cau.
- O leiaf dau aelod o'r grwp i'w hagor a chofnodi enwau, dyddiad ac amser agor ar y dyfynbrisiau.
- Sicrhau fod y dyfynbrisiau yn gywir yn unol a'r briff a roddwyd. Ni ddylid gwneud newidiadau na ychwanegiadau anawdurdodiedig i'r dogfennau.
- Cadw'r amlenni

GELLIR FFURFIOLI PROSES AGOR DYFYNBRISIAU GYDA FFURFLEN DERBYN TENDRAU. FFURFLEN AR GAEL GAN UWCH SWYDDOG CIST GWYNEDD.

CANLLAWIAU I GRWPIAU CYMUNEDOL A GWIRFODDOL
Gwahodd, derbyn ac agor dyfynbrisiau

6. Dyfynbrisiau Hwyr

- Dim i dderbyn y dyfynbrisiau hwyr.

7. Cofnodi dyfynbrisiau

- **Cofnodi a chadw tystiolaeth o'r drefn wahodd, newidiadau, derbyn ac agor y dyfynbrisiau ac unrhyw ddogfeniaeth eraill i gefnogi y penderfyniad.**

ANGEN SICRHAU FOD POB CONTRACTWR YN DERBYN YR UN WYBODAETH A THELERAU ER MWYN SICRHAU TEGWCH A DILYSRWYDD Y BROSES.